BYWGRAFFIAD ARTIST



Chanae Curtis

Soprano

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Astudiodd y soprano Americanaidd Chanae Curtis yn Ashland University, Ohio cyn chwblhau ei gradd Meistr yn y Manhattan School of Music, Efrog Newydd. Yn 2016, graddiodd o'r Cwrs Opera M.A. yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd lle cafodd ei dysgu gan Suzanne Murphy.

Tra yn y coleg perfformiodd **Alice Ford** yn *Falstaff*, **Lady Billows** yn *Albert Herring* a **Forester's Wife/ Mrs Pasek y**n *The Cunning Little Vixen.* Mae rhannau eraill yn cynnwys **Countess Almaviva** yn *Le nozze di Figaro* gyda Central City Opera, Colorado, **Fiordiligi** yn *Cosi fan tutte* gyda Oberlin yn yr Italy Festival, **Mimi** yn *La Bohème* gyda'r Manhattan School of Music a **Flora** mewn perfformiad cyngerdd o *La Traviata* gyda Cherddorfa Symphoni Ashland. Mae rhannau a berfformir mewn golygfeydd opera yn cynnwys y **Prif Ran** yn *Anna Bolena* a **Violetta** yn *La Traviata* yn y Scuola di belcanto, yr Eidal; **Papagena** yn *Die Zauberflöte* ar y Chautaqua Institution Voice Program; **Sister Rose** yn *Dead Man Walking* gan Jake Heggie a **Sister Margaretta** yn *The Sound of Music* gyda Central City Opera; **Adina** yn *L'elisir d'Amore,* **Rosalinde** yn *Die Fledermaus* a **Zerlina** yn *Don Giovanni* gyda Ashland University.

Mae Chanae wedi ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Ysgoloriaeth Lleisiol Y Fonesig Shirley Bassey, Gwobr Lieder Eileen Price a Gwobr Dolan tra yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd; Gwobr y Rotary yng ngystadleuaeth Canu Opera Ryngwladol 2016 'Citta di Alcamo' yn yr Eidal a gwobr bwysig y Pathfinder a noddwyd gan Arts Council of England, hefyd yn 2016.

Mae ei huchafbwyntiau cyngerdd yn cynnwys *Four Last Songs* gan Strauss gyda Cherddorfa Symffoni'r Coleg Brenhinol yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd a *Morgen* gan Strauss ar gyfer Tywysog Cymru ym Mhalas Buckingham yn Llundain. Yn ddiweddar gwnaeth Chanae ei datganiad cyntaf yn St. Martin-in-the-Fields yn canu gweithiau Samuel Barber a *Four Last Songs* Strauss. Mae wedi perfformio Cavatina Verdi, *Ernani, Ernani Involami* ar "In Tune" ar BBC Radio 3 ac wedi cymryd rhan mewn dosbarth meistr gyda David Pountney fel rhan o gystadleudaeth BBC Cardiff Singer of the World yn 2017 a gafodd ei ddarlledi ar y teledu.

Mae ei gwaith Oratorio yn cynnwys *Elijah* Mendelssohn gyda cherddorfa symffoni Manhattan School of Music, *Requiem* Fauré a *Magnificat* Bach gyda cherddorfa Symffoni Ashland, *Messiah* Handel a *Seven Last Words of Christ* gyda'r Galion Community Orchestra, Ohio.

Tymor diwethaf perfformiodd datganiad yn St-Martin-in-the-Fields; Te Deum o *Four Sacred Pieces* Verdi gyda Cherddorfa'r Hallé Orchestra, dan arweiniad Syr Mark Elder a ddarlledir ar BBC Radio 3 a dirprwyo rhan **Tatyana** yn *Eugene Onegin* gydag Opera Canolbarth Cymru.

Yn ystod yr haf, ymunodd â chorws Glyndebourne Festival ar gyfer *Vanessa; Saul* a *Giulio Cesare.*

Y tymor hwn, mi fydd yn perfformio fel aelod o ensemble *Porgy & Bess* a *War Requiem* Britten English National Opera a Dutch National Opera.

Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.